# Glanhau, paratoi a chynnal a chadw stablau ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau, paratoi a chynnal a chadw stablau ar gyfer ceffylau. Bydd angen i chi hefyd gynnal amodau stabl sydd yn addas ar gyfer y ceffyl, yn cynnwys awyru a golau.  Caiff y gwaith hwn ei wneud i sicrhau bod y stabl yn darparu llety diogel ac addas ar gyfer ceffylau.

Bydd angen i chi weithio gydag amrywiaeth o geffylau a mathau gwahanol o ddeunydd gwely sydd yn addas ar gyfer ceffylau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. glanhau a pharatoi'r stablau yn unol â'r cyfarwyddiadau
3. gwirio a chynnal a chadw amgylchedd y stabl er mwyn sicrhau diogelwch a lles y ceffyl
4. darparu deunydd gwely addas ar gyfer y ceffylau sy'n cael eu rhoi mewn stabl
5. gwirio bod dwr a bwyd ar gael ac ymdrin ag unrhyw broblemau o fewn lefel eich cyfrifoldeb
6. cyflwyno ceffylau i'r stabl yn ddiogel yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
8. dychwelyd offer i'r ardal ddynodedig
9. cael eglurhad os na fydd y cyfarwyddiadau'n glir
10. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd
11. cyfathrebu gydag eraill a gweithio'n affeithiol fel tîm

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. y mathau o stablau a gosodiadau stabl sydd yn addas ar gyfer y ceffylau yr ydych yn gweithio gyda nhw
3. y peryglon posibl a allai ddigwydd mewn stablau a sut y gellir lleihau'r rhain
4. y trefniadau glanhau sy'n briodol i'r math o geffyl a'r stablau cysylltiedig
5. dulliau addas o gyflwyno ceffylau i'r stabl
6. sut i adnabod ac ymdrin â straen mewn ceffylau o fewn eich lefel cyfrifoldeb, wrth lanhau stablau
7. yr amodau sydd yn hybu iechyd a lles ceffylau mewn stablau
8. y mathau o ddeunydd gwely sydd ar gael a'u manteision a'u hanfanteision
9. pwysigrwydd darparu dwr a bwyd a sut y dylid gwneud hyn
10. sut i waredu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
11. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch wrth lanhau, paratoi a chynnal a chadw stablau ar gyfer ceffylau
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Darparu dau o'r mathau canlynol o ddeunydd gwely:

- gwelt
- naddion
- papur
- matiau rwber
- dewis arall

Gwirio a chynnal a chadw'r amgylcheddau a'r amodau stabl canlynol:

- awyru
- golau
- addasrwydd ar gyfer y ceffyl unigol

Glanhau, paratoi a chynnal a chadw stablau ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq201 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; iard; stabl; llety; deunydd gwely; glân |